



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Penodi Aelodau

Dyddiad cau: 22 Awst 2017



Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Cynnwys

Tudalen

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Aelodau CCAUC

Atodiad C: Y broses ddethol

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Gwneud cais

Diolch am ddangos diddordeb yn y broses o benodi aelod i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd aelodau newydd yn helpu i lywio dyfodol Addysg Uwch yng Nghymru, penderfynu ble y caiff cyllid ei ddyrannu ac helpu i sicrhau bod y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn cyrraedd y safonau uchaf o ran perfformiad. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr aelodau a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau CCAUC a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-d75e3212f30a/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais, cliciwch ar y swydd a chlicio ar 'Gwneud Cais' yng nghornel chwith isa'r dudalen. Y tro cyntaf y byddwch chi'n gwneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu cyflwyno, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael ichi ei llenwi. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i bennod 'Rhesymau dros wneud cais' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw'ch cyfle chi i ddangos sut ydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf a ddisgrifir ym manyleb y person. Mater ichi yw penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol a ddarparwch sy'n berthnasol i ba faen prawf. Arfer cyffredin yw darparu paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Cyfyngwch eich datganiad personol i ddwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod os yw'n hirach na hynny.

CV

Gofalwch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf a dyddiadau'r swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol sydd gennych nawr neu a fu gennych yn y gorffennol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau: [22 Awst 2017]
Dethol y rhestr fer: [15 Medi 2017]
Cyfweliadau: [17 Hydref 2017]

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau ar eu bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam bod Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu yn arbennig felly geisiadau gan bob grŵp nad

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

yw wedi'i gynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl o dan 30 oed, pobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Cadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol all fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltiadau:

Am fwy o wybodaeth am y broses ddethol neu help i ymgeisio am y swydd hon,, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Gorfforaethol

Ffôn: 029 2082 5454

E-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a rôl yr Aelod(au), cysylltwch â'r Is-adran Addysg Uwch:

Ffôn: Colette Eley 03000 250523

E-bost: colette.eley@wales.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am benodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.cymru.gov.uk/penodiadaucyhoeddus

Penodi Aelod(au) i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Fel Aelod o'r Cyngor bydd disgwyl ichi:

- gydweithio'n agos â'r Cadeirydd ac â'r Prif Weithredwr wrth roi cyngor ac anogaeth i CCAUC wrth ysgogi, datblygu a gweithredu polisi ac wrth gyflawni'r cyfrifoldebau statudol;
- mynychu cyfarfodydd y Cyngor a chyfrannu at benderfyniadau allweddol ynghylch strategaeth y Cyngor;
- darparu cyngor awdurdodol ac amserol i Lywodraeth Cymru rhwng cyfarfodydd;
- cadeirio pwyllgorau'r Cyngor, neu fod yn aelodau ohonynt, fel y bo angen;
- cynnal, a hynny'n amlwg, y safonau uchaf posibl o ran uniondeb a didueddrwydd;
- ennyn parch tuag at waith y Cyngor; a
- gallu ymdrin yn hyderus â Llywodraeth Cymru, ei swyddogion a'i Gweinidogion, ac â'r sector Addysg Uwch yng Nghymru.

Manyleb y Person

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno recriwtio pedwar aelod i ddechrau sydd â phrofiad helaeth ar hyn o bryd, neu yn ddiweddar, yn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Sefydliadau Addysg Uwch;
- y sector ôl-orfodol ehangach, Addysg Bellach, Ysgolion (gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth), Dysgu Seiliedig ar Waith ac Addysg Gymunedol i Oedolion;
- cyflogwr mewn busnesau seiliedig ar wybodaeth neu sgiliau;
- recriwtio a/neu gyflogi graddedigion;
- rheoli a/neu weithredu newid sefydliadol.

Bydd rhestr wrth gefn o hyd at bedwar ymgeisydd addas hefyd yn cael ei llunio er mwyn llenwi swyddi a allai godi yn ystod y 12 mis nesaf.

Bydd hefyd disgwyl i Aelodau'r Cyngor:

- fod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n effeithio ar y sector addysg uwch a'r heriau y mae'n eu hwynebu o fewn y DU ac yn rhyngwladol;
- cael y gallu i herio syniadau cyfredol ac i gyfathrebu'n effeithiol ac mewn modd argyhoeddiadol;
- cael y gallu i wrando, dadansoddi a chwestiynu cynigion strategol a data ynghylch perfformiad, a gweithio fel rhan o dîm sydd â nod cyffredin;
- cael dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac ymrwymiad iddynt;a

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

- chael dealltwriaeth o bwysigrwydd safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus.

Y Gymraeg

Byddai'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol.

Wrth benodi Aelodau'r Cyngor, mae gofyn i Weinidogion Cymru, o dan adrannau 62(4) o Ddeddf 1992:

(a) ystyried dymunoldeb cynnwys personau yr ymddengys fod ganddynt brofiad o ddarparu addysg uwch, ac sydd wedi dangos capasiti i wneud hynny, neu sydd wedi meddu ar unrhyw swydd lle roedd cyfrifoldeb am ddarparu addysg uwch, ac wedi dangos capasiti i wneud hynny. Wrth benodi personau o'r fath, bydd gofyn ystyried dymunoldeb y ffaith eu bod eisoes yn ymwneud â darparu addysg uwch neu'n meddu ar gyfrifoldeb am ddarpariaeth o'r fath, ac

(b) ystyried dymunoldeb cynnwys personau yr ymddengys fod ganddynt brofiad o faterion diwydiannol, masnachol neu ariannol, ac sydd wedi dangos capasiti i wneud hynny, neu sy'n arfer unrhyw broffesiwn.

Ni chaiff ymgeiswyr llwyddiannus sy'n gweithio i sefydliad addysg uwch yng Nghymru ar hyn o bryd, neu sydd wedi gweithio i sefydliad o'r fath, gynrychioli buddiannau'r sefydliad hwnnw tra bydd yn aelod o'r Cyngor, ond bydd disgwyl iddo/iddi fynegi barn diduedd a holistaidd ynghylch yr heriau y mae pob rhan o'r sector addysg uwch yng Nghymru yn eu hwynebu.

Wrth wneud penderfyniadau terfynol ynghylch aelodaeth, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ystyried y gofynion hyn ac yn cael ei harwain gan yr angen i sicrhau Cyngor cytbwys sy'n adlewyrchu'r heriau amrywiol sy'n wynebu addysg uwch yng Nghymru, yn adlewyrchu anghenion Cymru gyfan, ac amrywiaeth ein cenedl.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd ym Medwas, ger Caerdydd
Ymrwymiad amser:	1.5 diwrnod y mis, 6 chyfarfod y flwyddyn
Daliadaeth swydd:	penodiad am 3 blynedd i ddechrau.
Taliad Cydnabyddiaeth:	£5,076 y flwyddyn, gall Aelodau hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn cyfyngiadau rhesymol.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod derbyn swydd aelod o CCAUC sy'n derbyn tâl yn golygu na allant fod yn aelodau o Dŷ'r Cyffredin o dan Ddeddf Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin 1975, Atodlen 1, Rhan III nac o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymwysu) 2010, Rhan 1 Atodlen 1.

Gwrthdaro o ran buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro, neu roi argraff o wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Aelod o Fwrdd CCAUC, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar CCAUC.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at God Ymarfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. I weld y ddogfen honno, ewch i:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Rôl a chyfrifoldebau CCAUC

Cefndir

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC" neu "y Cyngor") yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd ym mis Mai 1992 o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 ("Deddf 1992").

Nod y Cyngor yw datblygu a chynnal addysg uwch ragorol ar lefel ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, y gymdeithas a'r economi yng Nghymru a thu hwnt. Yn 2017-18, bydd CCAUC yn rheoli cyllideb o £100.4 miliwn. Drwy Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sefydlwyd fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, a gryfhaodd rôl reoleiddio'r Cyngor. Bydd hyn yn golygu newidiadau sylweddol yn y ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau wrth iddo baratoi i'r Ddeddf fod yn gwbl weithredol o 1 Medi 2017 ymlaen.

Mae'r Cyngor yn gweinyddu cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn prifysgolion yng Nghymru, ynghyd ag addysgu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu cyllid ar gyfer cyrsiau addysg uwch penodol mewn colegau addysg bellach.

Ar hyn o bryd hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ariannu cyrsiau hyfforddi athrawon ac am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynol athrawon yng Nghymru. Caiff y cyfrifoldebau hyn eu cynnwys yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2012 ac yn Neddf Addysg 2005.

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cyngor ar gyfer 2015-16, y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-14 hyd 2016-17, ynghyd â llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 ar gael ar wefan CCAUC www.hefcw.ac.uk.

Rôl y Cyngor

Ar hyn o bryd mae dwy ran i brif dasgau'r Cyngor:

- rheoleiddio'r sector yng Nghymru drwy gymeradwyo a monitro cynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau, sicrhau ansawdd uchel Addysg Uwch mewn sefydliadau a reoleiddir a sefydlu fframwaith ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol mewn sefydliadau a reoleiddir; a
- dyrannu cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu addysg ac ymgymryd ag ymchwil gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ac i'r sector. Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Cyfrifyddu dynodedig, sydd â chyfrifoldeb penodol yn ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Mae Strategaeth Corfforaethol CCAUC (2013-14 i 2016-17) yn nodi'r themâu strategol allweddol y bydd y Cyngor yn eu hystyried wrth geisio cyflawni ei weledigaeth ar gyfer sector addysg uwch yng Nghymru sy'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn rhagorol ar y llwyfan rhyngwladol. Hefyd yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi drafftio strategaeth Addysg Uwch lefel uchel i Gymru i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a gaiff ei thrafod gyda Llywodraeth Cymru yn ystod 2017.

Nod y Cyngor yw:

- sicrhau profiad rhagorol ac o'r radd flaenaf ar gyfer myfyrwyr addysg uwch ynghyd ag ymchwil rhagorol o safon ryngwladol;
- hybu cyfraniad addysg uwch yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol;
- galluogi darparwyr addysg uwch i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau'r DU ar gyfer addysg uwch; a
- hysbysu a llywio polisi'r Llywodraeth er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn briodol i'w gyflenwi gan ddarparwyr addysg uwch;

er mwyn:

- gwella cyfiawnder cymdeithasol; a
- sicrhau economi sy'n ffynnu.

Diwygio Addysg Uwch

Mae addysg uwch yng Nghymru yn wynebu newidiadau sylweddol yn y blynyddoedd nesaf, yn sgil:

- penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd;
- ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad yr Athro Hazelkorn o Reoleiddio a Chynnal Trosolwg o Addysg a Hyfforddiant ôl-Orfodol yng Nghymru;
- ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Syr Ian Diamond o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru;
- y canlyniadau ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru sy'n deillio o'r Bil Diwygio Addysg Uwch yn Lloegr.

Bydd disgwyl i aelodau'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf ar draws y DU, a sut y byddant yn effeithio ar Addysg Uwch yng Nghymru.

Atodiad C

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CVs a datganiadau personol yr ymgeiswyr i benderfynu pwy yn ei farn sy'n bodloni gofynion y rôl orau, a phwy ddylai gael ei wahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a rowch yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu'r dystiolaeth sy'n dangos sut ydych yn bodloni'r holl ofynion hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Huw Morris, Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru, a bydd yn cynnwys David Allen, Cadeirydd CCAUC, Leighton Jenkins, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rhanbarthol CBI Cymru a Dr Maria Hinfelaar Is-Ganghellor, Prifysgol Glyndŵr, fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Mae'n bosib y caiff eich cais ei roi ar "restr hir", gan ddibynnu faint o geisiadau fydd wedi dod i law, cyn ei drosglwyddo i'r panel rhestr fer iddynt ei ystyried. Fe ddylech fod yn ymwybodol, yn y sefyllfa honno, na chaiff eich cais o bosib ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu erbyn canol mis Medi 2017 pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweiliad yr wythnos yn dechrau 16 Hydref 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, sef y rheini sydd ym marn y panel wedi dangos eu bod yn bodloni'r gofynion ym manyleb y person orau. Ond os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna fe gewch chithau'ch gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad ydym wedi nodi dyddiad y cyfweiliad yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein gobaith yw rhoi cymaint o rybudd ag y medrwn o ddyddiad y cyfweiliad ichi. Os na allwch ddod i'r cyfweiliad ar y diwrnod hwnnw, fe wnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosib oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu am na fydd y panel dethol ar gael.

Bydd y system Penodi yn anfon e-bost atoch i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweiliad neu beidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yng Nghaerdydd.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Caiff yr ymgeiswyr sydd ym marn y panel yn "benodadwy" eu hargymell i'r Gweinidogion a fydd yn penderfynu'n derfynol ar y mater. Gallai Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu. Os gwnaiff, bydd yn cwrdd â'r holl ymgeiswyr, gyda chadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig yn bresennol. Bydd bwlich amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cael eu cyfweld yn cael gwybod am hynt y broses.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi fel aelod o CCAUC, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fuoch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, os hoffech, gallwn anfon llythyr atoch gyda manylion y sawl y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth i'ch cyfweiliad a'ch cais.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau cyn gynted â phosibl a thrin pob ymgeisydd â chwarteisi. Os oes gennych gŵyn am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 029 2082 5454 neu DesgGymorthCydwasanaethau@cymru.gsi.gov.uk.